# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Clive Lloyd | Adran Etholiadol: | St Thomas |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Gan weithio gyda'm cydweithiwr, y Cynghorydd Joe Hale, rydym wedi cynnal cymorthfeydd Cynghorwyr misol ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis. Cafodd y rhain eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol ar draws St Thomas, sef Canolfan Gymunedol Port Tennant, Neuadd Eglwys St Thomas, Neuadd Eglwys Bae Fabian ac Eglwys Cenhadaeth Gwyn.

Hefyd, cynhaliasom 2 gyfarfod preswylwyr yn Neuadd Eglwys St Thomas ac Eglwys Cenhadaeth Gwyn. Aeth swyddogion y cyngor i'r ddau gyfarfod i drafod pryderon lleol am draffig a pharcio. Ceisiasom roi mwy o ffocws cymunedol ar gyfarfodydd preswylwyr a chafwyd hefyd gynrychiolaeth gan yr heddlu lleol. Lluniasom 3 chylchlythyr lleol ym mis Mawrth, mis Medi a mis Rhagfyr 2013.

Roeddwn yn llywodraethwr Ysgol Gymunedol St Thomas ac Ysgol Dan-y-graig.

Aethom i'r afael ag amrywiaeth o faterion unigol lleol o barcio i breswylwyr, baw cŵn, glanhau lonydd cefn, codi cyfyngiadau traffig i helpu busnesau lleol ar Heol Port Tennant, materion Diogelwch Ffyrdd, materion cynllunio a cheisiadau tai.

Chwaraeais rôl weithgar ym Mhartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Port Tennant ac euthum i gyfarfodydd misol yn rheolaidd. Cynorthwyais bartneriaeth gymunedol leol GSP trwy fynd i gyfarfodydd misol a chynorthwyo gyda threfnu Carnifal Eastside.

Fe wnaethom ailsefydlu Pwyllgor Preswylwyr Safle Tirlenwi Tir John a sefydlu perthynas waith dda rhwng y gymuned leol a swyddogion y cyngor. Sefydlais gyfarfodydd chwarterol â Swyddfa Dai Eastside Dinas a Sir Abertawe.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 8 | / | 12 | 67 | % |
| Y cyngor | 10 | / | 15 | 67 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor Perfformiad a Chyflwyno | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 7 | / | 13 | 54 | % |
| Pwyllgor Safonau | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 56 | / | 83 | 67 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru/Pwyllgor Rheoli Adnoddau
Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus
Cwmni Gwaredu Gwastraff yr Awdurdod Lleol (Cyfranddeiliad)
Fforwm Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru
Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cynorthwyais Aelod y Cabinet dros Leoedd trwy gydol y flwyddyn gan arwain ym meysydd troseddu ac anhrefn a rheoli gwastraff. Roeddwn yn aelod o Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel a Phwyllgor Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru.

Roeddwn yn Is-gadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu a chynorthwyais wrth roi proses craffu newydd ar waith. Roeddwn hefyd yn aelod o baneli ymchwilio craffu a oedd yn edrych ar dwristiaeth a thai fforddiadwy.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r cyrsiau hyfforddiant canlynol:

25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol

Academi Arweinyddiaeth – dyddiadau amrywiol

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn rhan o drafodaethau a phrosiectau sy'n cynnwys Morlyn Llanw Bae Abertawe a Champws Bae Prifysgol Abertawe.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14.05.14 |